Adroddiad o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr - CCB a Chyngor yr Undeb, 5 Rhagfyr 2016

Caiff eich Undeb ei lywodraethu a'i arwain yn strategol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn y bôn, maent yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol â'n hamcanion elusennol. Mae 12 aelod ar Fwrdd Ymddiriedolwyr UMAber ac maent yn cyfarfod o leiaf pum gwaith y flwyddyn i gynnal ei fusnes ar eich rhan chi. Mae'r Bwrdd yn cynnwys 5 Swyddog llawn-amser (Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion), 2 fyfyriwr ymddiriedolwr (1 IR ac 1 ÔR) a 5 ymddiriedolwr allanol ag arbenigedd sy'n amrywio o adnoddau dynol, cyllid, cydraddoldeb ac amrywioldeb a phrofiad o weithio ym mudiad y myfyrwyr. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn recriwtio ar gyfer ymddiriedolwyr allanol; mae un ymddiriedolwr wedi dod i ddiwedd eu cyfnod yn y swydd. Roedd 2 swydd yn wag gan nad oedd y nifer o ymddiriedolwr allanol ond wedi cael ei gynyddu o 3 i 5 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn dilyn cyfnod estynedig o drafod cyfrinachol, rydym yn y broses o fynd drwy gofnodion Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sydd heb gael eu cyhoeddi er mwyn eu cyhoeddi ar y wefan cynted â phosib.

Roedd llynedd yn flwyddyn anodd iawn i UMAber a bu rhaid i'r ymddiriedolwyr wynebu nifer o heriau. Fel y byddwch yn gweld o'r cyfrifon yn nes ymlaen, bu diffyg ariannol o un flwyddyn i'r nesaf, a gwnaed colledion sylweddol llynedd. Gweithiodd yr ymddiriedolwyr gydag Uned Gymorth Strategol UCM i adolygu ein holl weithgareddau, a bu rhaid gwneud rhai penderfyniadau allweddol ynglŷn â dyfodol Bar Cwtch a'r Siop. Rydym wedi llunio cytundeb lefel gwasanaeth â'r Brifysgol ar gyfer y ddarpariaeth o'r gwasanaethau masnachol hyn, sy'n golygu eu bod yn parhau i fodoli ond heb unrhyw risg ariannol i UMAber. Mae hyn hefyd yn ein galluogi i ganolbwyntio amser staff ac adnoddau ar gymorth i'r aelodaeth; nid dyma fu'r achos ers nifer o flynyddoedd. Rydym yn gweithio gyda'r Brifysgol i ddiddymu'r ddyled hanesyddol erbyn Mehefin 2017 a diwedd fy nghyfnod i fel Cadeirydd, cyn belled â'n bod ni'n perfformio o fewn y gyllideb eleni, yn cyrraedd ein hamcanion craidd, ac yn gweithio gyda'r Brifysgol i sicrhau arferion cyllidol cadarn. Rydym yn gobeithio y bydd Pwyllgor Cyllid a Strategaeth y Brifysgol yn gefnogol i hyn.

Gadawodd John Glasby ei swydd fel Prif Weithredwr yn 2015, ar ddechrau fy nghyfnod fel Swyddog Addysg llynedd. Gofynnwyd am gefnogaeth gan Uned Gymorth Strategol UCM, a recriwtiwyd Prif Weithredwr dros-dro, Daryl Ormerod, fu yn y swydd tan Ebrill 2016. Ers hynny, rydym wedi recriwtio ein Prif Weithredwr newydd, Trish McGrath, fu'n gweithio yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Manceinion fel pennaeth Llais Myfyrwyr.

Yn dilyn ein cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau masnachol, mae UMAber wedi ail-strwythuro ein darpariaeth staffio ar gyfer yr aelodaeth; recriwtiwyd ar gyfer ystod o swyddi erbyn Medi 2016. Mae holl staff UMAber mewn lle erbyn hyn. Yn ogystal â'r adolygiad staffio, rydym wedi comisiynu UCM i ymgymryd ag adolygiad o rôl a phortffolio ein Swyddogion, er mwyn sicrhau bod ein rolau'n dal i fod yn berthnasol a'n bod yn y sefyllfa orau i gynrychioli ein haelodau. Rydym wedi cwblhau'r camau cyntaf, ac mae'n ymddangos na fydd unrhyw newidiadau sylweddol; serch hynny byddwn yn ystyried argymhellion o'r adolygiad hwn, ac os oes unrhyw newidiadau mawr, yna caiff hyn ei benderfynu'n ddemocrataidd gan fyfyrwyr.

Mae ein strategaeth UMAber bresennol yn dod i ben eleni, felly rydym wrthi'n datblygu'r strategaeth nesaf, a ddaw i rym yn 2017. Mae hyn wedi cael ei ddylanwadu gan ddarn mawr o ymchwil ymhlith yr aelodaeth a nifer o grwpiau ffocws a gweithdai; mae'r ymgynghoriad ar hyn yn parhau. Mae hwn

yn gyfle cyffrous dros ben i rannu dyfodol UMAber a'r hyn y bydd UMAber yn gweithio tuag ato yn 2020.

Archwilwyr

Rydym wedi penodi Crowe, Clark, Whitehill fel ein Harchwilwyr, gan mai nhw yw ein Harchwilwyr presennol, ac rydym wedi sefydlu perthynas gadarnhaol â nhw.

Ymaelodaethau

Rydym ar hyn o bryd mewn aelodaeth o'r canlynol:

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) (gan gynnwys UCM Cymru)
Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS)
Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA)
*Advice UK*
Cymdeithas Prif Weithredwyr Mudiadau Gwirfoddol (ACEVO)